O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2010 Rhif 271 (Cy.34)

ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) (Diwygio) 2010

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 1993 (O.S. 1993/252) ("Rheoliadau 1993") yn darparu ar gyfer cynnwys yr hysbysiadau galw am dalu ardrethi, a ddyroddir gan awdurdodau bilio (cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol) yng Nghymru, a'r wybodaeth y mae'n rhaid ei chyflenwi wrth gyflwyno hysbysiadau o'r fath.

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn diwygio Rheoliadau 1993 drwy addasu'r wybodaeth sydd i'w chyflenwi yn dilyn yr ailbrisio ar 1 Ebrill 2010 ac ynglŷn â'r cynllun rhyddhad ardrethi i fusnesau bach yn unol â Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) (Diwygio) 2010 (O.S. 2010/273 (Cy.36)).

Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys yn unig i ardrethi sy'n daladwy ar ôl 31 Mawrth 2010.

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2010 Rhif 271 (Cy. 34)

ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) (Diwygio) 2010

Gwnaed *6 Chwefror 2010*

Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru *9 Chwefror 2010*

Yn dod i rym *3 Mawrth 2010*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 62, 143(2) a 146(6) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**) a pharagraffau 1 a 2(2) o Atodlen 9 i'r Ddeddf honno ac adran 26(3) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993(**2**), ac a freiniwyd bellach yng Ngweinidogion Cymru(**3**).

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) (Diwygio) 2010, a deuant i rym ar 3 Mawrth 2010.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(**1**) 1988 p.41.
(**2**) 1993 p.38.
(**3**) Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol o ran Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), *gweler* y cyfeiriad at Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 yn Atodlen 1. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru o dan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 i'r Ddeddf honno.

Diwygio Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 1993

2.—(1) Diwygir Atodlen 2 i Reoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 1993(**1**) fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 1 o Ran 1 o'r Atodlen—

(a) Yn yr is-baragraff sydd â'r pennawd "Rateable Value"—

(i) yn lle "2005", rhodder "2010";

(ii) yn lle "2003", rhodder "2008"; a

(iii) hepgorer y geiriau o "Thus" i "offices".

(b) Yn yr is-baragraff sydd â'r pennawd "Small Business Rate Relief"—

(i) ym mharagraff (a), yn lle "£2,000" rhodder "£2,400";

(ii) ym mharagraff (b), yn lle "£2,001 and £6,500", rhodder "£2,401 and £7,800"; a

(iii) ym mharagraff (e) yn lle "£6,501 and £9,000", rhodder "£7,801 and £11,000".

3. Ym mharagraff 1 o Ran 2 o'r Atodlen—

(a) Yn yr is-baragraff sydd â'r pennawd "Gwerth Ardrethol"—

(i) yn lle "2005", rhodder "2010";

(ii) yn lle "2003", rhodder "2008"; a

(iii) hepgorer y geiriau o "Felly" i "awdurdod".

(b) Yn yr is-baragraff sydd â'r pennawd "Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach"—

(i) ym mharagraff (a) yn lle "£2,000" rhodder "£2,400";

(ii) ym mharagraff (b) yn lle "£2,001 a £6,500", rhodder "£2,401 a £7,800"; a

(iii) ym mharagraff (d) yn lle "£6,501 a £9,000", rhodder "£7,801 a £11,000".

Carl Sargeant

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

6 Chwefror 2010

(**1**) O.S. 1993/252, a ddiwygiwyd gan O.S. 1995/284, 1996/311, 1996/1880, 1997/356, 1998/155, 2000/793 (Cy.303), 2008/7 (Cy.3) a 2008/3075 (Cy.269).